# Disgrifiad Swydd: Cydlynydd y Gwirfoddolwyr

Mae swydd Cydlynydd u Gwirfoddolwyr yn un hanfodol mewn unrhyw glwb. Rhaid i chi ddeall bod gwirfoddolwyr yn ymuno â'r clwb am nifer o wahanol resymau, felly mae'n rhaid ichi wneud eich clwb mor ddeniadol â phosib.

**Sut byddwch chi'n elwa o'r swydd?**

- Ymdeimlad o hunan gyflawniad
- Ymdeimlad o roi yn ôl i'r gymuned
- Cwrdd â llawer o bobl o wahanol gefndiroedd
- Cyfle i ddysgu sgiliau newydd a datblygu rhai sy'n bodoli eisoes
- Posibiliadau gyrfa newydd / cyflogadwyedd gwell
- Potensial i dderbyn hyfforddiant ac ennill cymwysterau newydd

**I bwy y byddaf i'n atebol?**

- Y Pwyllgor

**Pwy fydd yn atebol i mi?**

- Gwirfoddolwyr

**Yn ddelfrydol, bydd angen i chi fod:**

- Yn rhywun sy'n hawdd siarad ag e, gyda sgiliau gwrando da
- Yn drefnus ac yn hapus i ddirprwyo
- Yn hyderus ac yn dda wrth gyfathrebu
- Yn frwdfrydig a chymhellol

**Yr hyn y byddwch chi'n ei wneud:**

- Gweithredu fel y man cyswllt cyntaf ar gyfer gwirfoddolwyr presennol a darpar wirfoddolwyr
- Paratoi *Pecyn Croeso* ar gyfer gwirfoddolwyr newydd, gan eu cyflwyno i'ch clwb a'r gamp
- Dirprwyo pobl i swyddi sy'n gweddu i'w sgiliau, diddordebau ac argaeledd
- Rhoi cymorth, arweiniad ac anogaeth i wirfoddolwyr
- Cydnabod a gwobrwyo llwyddiant, enwebu gwirfoddolwyr ar gyfer gwobrau clwb, lleol a chenedlaethol
- Cynnal cofnod gyda manylion y gwirfoddolwyr yn y clwb

**Faint o amser y bydd yn ei gymryd?**

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y swydd yma'n cymryd tua 2 i 3 awr yr wythnos, er y bydd hyn yn dibynnu ar natur eich clwb / sefydliad chwaraeon.

**Hoffech chi ragor o wybodaeth? Croeso ichi gysylltu â:**

(*Rhowch fanylion cyswllt y Cadeirydd neu'r Ysgrifennydd yma*)